Lloyd & Gravell Ltd

Teitl swydd:

Rheolwr HSEQ

Rôl:

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion i ymuno â'n Tîm Masnachol. Fe fyddan nhw yn gyfrifol am sicrhau fod gweithgareddau drwy'r busnes yn cael eu cwblhau yn unol â rheoliadau Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Bydd angen i'r ymgeiswyr gael o leiaf cymhwyster NEBOSH Tystysgrif Cenedlaethol mewn Iechyd & Diogelwch Adeiladu a chael profiad o ymgymryd â rôl rheoli iechyd, diogelwch a'r amgylchedd o fewn y diwydiant adeiladu dros nifer o safleoedd. Bydd angen i'r deiliad gyfawni archwiliadau safle iechyd a diogelwch, ysgrifennu datganiadau dull ac asesiadau risg, cyflawni sgyrsiau blwch offer, cynhyrchu adroddiadau iechyd a diogelwch, cyflawni ymchwiliadau damweiniau a chymryd rhan mewn achwiliadau gan eraill.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu at gyflawni amcanion a thargedau cyffredinol y busnes yn ogystal â gwelliant parhaus ar draws y busnes. Fel yn briodol, bydd y cwmni yn cefnogi cyfleoedd i ganlyn ddatblygiad addysg a phroffesiynol pellach. Mae trwydded gyrru llawn a glân yn angenrheidiol. Dilynwch y ddolen i weld proffil y swydd.

Pwy ydyn ni a'r hyn a wnawn ni:

Rydym yn gwmni teuluol sydd â gwreiddiau Cymreig wrth galon popeth a wnawn. Fel un o gwmniau adeiladu blaenllaw Cymru a chontractwr sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol, rydym yn adeiladu, adnewyddu ac atgyweirio adeiladau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r cwmni wedi newid yn ddiweddar i Ymddiriedolaeth Perchenogaeth Gweithwyr er mwyn hwyluso ein cynllun etifeddu, parhad busnes a thyfiant.

Mae pobl yn adnabod Lloyd & Gravell am lawer mwy nac ansawdd ein gwaith yn unig. Mae'n nhw'n ein hadnabod ni am bwy ydyn ni a beth rydym ni'n ei wneud i sicrhau fod eu prosiectau yn llwyddiant. Er ein bod yn codi adeiladau rhagorol, rydym hefyd yn gweithio'n galed i gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, yn cyfrannu'n weithredol i gymunedau ac yn gadael buddion parhaus yn ogystal ag adeilad rhagorol.

Gweithio i Lloyd & Gravell

Rydym am i bobl fwynhau gweithio i'n cwmni a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod yn aelod gwerthfawr o dîm a gwybod i sicrwydd bod y cwmni bob amser yn meddwl am eu lles. I gefnogi hyn, mae ein telerau ac amodau cyflogaeth yn gystadleuol.

Rhan o athroniaeth ein cwmni yw Hyfforddi i Gadw Mae hyn yn cynnwys:

- Pecynnau recriwtio a chadw cystadleuol
- Rhaglen hyfforddi ar draws y cwmni
- Cyfleoedd dilyniant gyrfa

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo eu bod yn bodloni gofynion ein swyddi gwag ni waeth beth fo'u hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd. a mynegiant rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal, gwerthfawrogi amrywiaeth a mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac yn ymdrechu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd popeth a wnawn.

Y cam nesaf

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, anfonwch gopi o'ch CV at Amanda Jones 43 Myrtle Hill, Ponthenri, Llanelli, Caerfyrddin. SA15 5PD neu e-bostiwch amanda@lloydandgravell.co.uk. Am ragor o wybodaeth neu drafodaeth anffurfiol ynghylch y swydd, cysylltwch â Robert Charles ar 01269 861160 neu drwy e-bost robert@lloydandgravell.co.uk. Dyddiad cau ar gyfer derbyn CV yw am 12:00 y.p., 11eg o Rhagfyr 2026.